# Cylchlythyr / Newsletter

**Tymor yr Haf (Hanner Tymor 1) 2024** | Summer Term (Half Term 1) 2024



## Neges Gan y Pennaeth / Message From the Headteacher

**Am hanner tymor prysur arall yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. Hoffwn ddechrau drwy ddweud pa mor falch ydw i o'n tîm pêl-rwyd am gystadlu yng nghystadleuaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd rai wythnosau yn ôl. Roedd eu perfformiad a'u hymddygiad yn rhagorol. Mae mor wych gweld ein hysgol fach yn cystadlu ar lefel genedlaethol unwaith eto.**
**Hoffwn hefyd ganmol ein disgyblion gwych Blwyddyn 5 am eu hymddygiad gwych yn Llangrannog. Roedd yn fraint cael treulio amser gyda nhw am rai dyddiau. Hefyd, diolch enfawr i Mr Perry-Hopton a Mr Ireland am dreulio'r wythnos gyda'r plant.**
**Mae gennym lawer i edrych ymlaen ato ar ôl hanner tymor, yn enwedig ein cynhyrchiad gwych o Matilda. Mwynhewch hanner tymor ac edrychwn ymlaen at groesawu'r disgyblion yn ôl ar ddydd Llun y trydydd o Fehefin**

*What another busy half term at Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod. I'd like to start by saying how proud I am of our netball team for competing in the National Urdd Eisteddfod competition a few weeks ago. Their performance and behaviour were outstanding. It's so great seeing our little school competing at a national level once again.*
*I'd also like to praise our wonderful Year 5 pupils for their excellent behaviour in Llangrannog. It was an absolute privilege spending time with them for a couple of days. Also, a huge thank you to Mr Perry-Hopton and Mr Ireland for spending the week with the children.*
*We have a lot to look forward to after half term, especially our fantastic production of Matilda. Have a great half term holiday and we look forward to welcoming the pupils back on Monday the third of June.*

Dydd Llun, $1^{af}$ o Orffennaf 2024 am 5:00yh

Monday, $1^{st}$ July 2024 at 5:00pm

# YSGOL GYMRAEG GILFACH FARGOD

Yn Cyflwyno



ROALD DAHL'S

# Matilda

THE MUSICAL JR.

Llyfr gan | Book by
**DENNIS KELLY**

Cerddoriaeth a Geiriau gan | Music & Lyrics by
**TIM MINCHIN**

Roald Dahl's Matilda The Musical JR. is presented through special arrangement with
and all authorized materials are supplied by
Music Theatre International, New York, NY
(212) 541-4684 mtishows.com

## Llangrannog



**Bu ein disgyblion blwyddyn 5 yn ddigon ffodus i dreulio wythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Cawsant wythnos wych yn llawn gweithgareddau fel rhaffau uchel, marchogaeth, gwibgartio, saethyddiaeth a llawer mwy. Roedd eu hymddygiad yn rhagorol ac rydym yn hynod falch ohonyn nhw i gyd am fentro. Diolch i holl staff Canolfan yr Urdd am ofalu amdanom drwy'r wythnos - roedd y bwyd yn uchafbwynt arbennig!**

Our year 5 pupils were lucky enough to spend a week in the Urdd Centre, Llangrannog. They had a fantastic week packed with activities such as high ropes, horse riding, go-karting, archery and much more. Their behaviour was exemplary and we're extremely proud of them all for even attempting to step out of their comfort zones. Thank you to all the Urdd Centre staff for looking after us all week - the food was a particular highlight!



## Pêl-rwyd Cenedlaethol yr Urdd / Urdd National Netball



**Llongyfarchiadau gwresog i'r tîm pêl-rwyd a fu'n cystadlu yn nhwrnamaint cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Roedd hi'n fraint cael bod gyda nhw a'u gweld yn cynrychioli'r ysgol mor arbennig o dda. Diolch hefyd i'r rhieni am drefnu'r crysau-t gwych!**

*Warm congratulations to the netball team who competed in the Urdd national tournament in Aberystwyth. It was a privilege to be with them and see them represent the school so exceptionally well. Thanks also to the parents for organizing the fantastic t-shirts!*

# Newyddion Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod

Dysgu am Awtistiaeth
Learning about Autism

AwtistiaethCymru.org | AutismWales.org

## Achrediad 'Dysgu Am Awtistiaeth' / 'Learning About Autism' Accreditation

**Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn gweithio ar godi ymwybyddiaeth o Awtistiaeth o fewn yr ysgol a'i chymuned. Mae'r prosiect hwn wedi cynnwys yr holl randdeiliaid - gan gynnwys disgyblion, rhieni, athrawon, goruchwylwyr, staff y gegin a llywodraethwyr - yn ymgymryd â hyfforddiant datblygiad proffesiynol personol ac ennill achrediad personol. Yn dilyn cyfnod dwys o hyfforddiant a chyfnod pontio lle'r ydym wedi gweithredu newidiadau o fewn amgylchedd yr ysgol, barnwyd ein bod wedi gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn gweithredu. Canlyniad hyn yw bod yr ysgol wedi ennill achrediad ysgol gyfan sy'n profi ein hymroddiad i fod yn gynhwysol i bob plentyn neu berson ifanc. Fel ysgol, ni allem fod yn fwy balch o'r cyflawniad hwn a gwyddom fod hwn eto yn gam enfawr yn ein taith barhaus o welliant. Diolch yn fawr iawn i'n holl ddisgyblion am fod yn Archarwyr Awtistiaeth gwych!**

Over the past year, we have been working on raising awareness of Autism within the school and its community. This project has involved all stakeholders - including pupils, parents, teachers, supervisors, kitchen staff and governors - undertaking personal professional development training and gaining a personal accreditation. Following an intense period of training and a period of transition where we have implemented changes within the school environment, we have been judged to have made significant changes to the way we operate. The result of this is that the school has gained a whole-school accreditation which proves our dedication to being inclusive to every child or young person. As a school, we couldn't be prouder of this achievement and we know that this is yet again a huge step in our continuous journey of improvement. A big thank you to all our pupils for being great Autism Superheroes!

# Y Siarter Iaith

## Ein Targedau Siarter Iaith / Our Siarter Iaith Targets

| | |
|---|---|
| Targed 1<br>Target 1 | **Siarad mwy o Gymraeg tu allan i'r ysgol**<br>*Use more Welsh outside of school* |
| Targed 2<br>Target 2 | **Gwrando ar fwy o gerddoriaeth Cymraeg**<br>*Listen to more Welsh music* |
| Targed 3<br>Target 3 | **Gwylio mwy o raglenni Cymraeg**<br>*Watch more Welsh programmes* |
| Targed 4<br>Target 4 | **Siarad mwy o Gymraeg ar yr iard ac yn y coridorau**<br>*Speak more Welsh on the yard and in the corridors* |
| Targed 5<br>Target 5 | **Defnyddio apiau a thechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg**<br>*Use more Welsh apps and technology* |

## Y Gornel Ddysgu / The Learning Corner

| | | |
|---|---|---|
| Hello! | - | Shwmae! |
| Good morning | - | Bore da |
| Good afternoon | - | Prynhawn da |
| Good evening | - | Noswaith dda |
| Good night | - | Nos da |
| How are you? | - | Sut wyt ti? |
| May I have...? | - | Ga i...? |



## Ein Pigion Cerddorol / Our Musical Playlist

Y bardd o Montreal - Bryn Fôn a'r band
Fyny ac yn ôl - Gwilym
Heyla - Frizbee
Can yr ysgol - Dafydd Iwan

## Ap y Mis

Duolingo

**Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon**

# Her Seren a Sbarc

Dyma **'Her Seren a Sbarc'** mis **Hydref**. Cofiwch i drydaru eich ymdrechion ar Trydar a chynnwys @yggf123 gyda'r hashnod #siarteriaithyggf

*Here is the '**Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)** for the month of **Hydref (October)**. Please remember to tag us on Twitter in your efforts, please tag @yggf123 and use the hashtag #siarteriaithyggf*

**Gwyliwch 'Cacamwnci'**
Watch 'Cacamwnci'




**Gofynnwch "Sut wyt ti'n teimlo?"** Ask your friend 'Sut wyt ti'n teimlo?'




**Canwch gân "Ti a Fi" gan Bronwen Lewis**
Sing along to "Ti a Fi" by Bronwen Lewis





**Dawnsiwch i gân Seren a Sbarc**
Dance along to Seren a Sbarc's song




**Chwaraewch gêm "Creu gyda Cyw" ar Cyw**
Play the "Creu Gyda Cyw' game on Cyw




**Ewch am dro i ffeindio pethau brown** / *Go for a walk to find brown things*





Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Newyddion Dosbarth / Class News





## Dosbarth Branwen
*Meithrin / Nursery*

**Rydyn ni wedi mwynhau dysgu am anifeiliaid Awstralia, traethau Portiwgal a diwylliant Ffrainc yn ystod yr hanner tymor yma. Gwnaethon ni siarad ậ ffrind Miss Pugh yn Awstralia dros zoom, a chreu m ổr mewn potel ar yr iard. Aethon ni ar drip hyfryd i Ynys Y Bari lle roedd y tywydd yn braf iawn ac aethon ni mewn i'r môr a bwyta hufen iâ. Ar ein diwrnod olaf, blason ni fwyd Ffrengig - mmm!**

*We have really enjoyed learning all about the animals in Australia, the beaches in Portugal and French culture this half term. We spoke to Miss Pugh's friend in Australia over zoom, and made an ocean in a bottle on the yard. We went on a lovely trip to Barry Island where the weather was beautiful and we went into the sea and ate ice cream. On the last day of term, we tasted some French food - yum!*

## Dosbarth Dwynwen
*Derbyn/1/2 / Reception/1/2*

**Rydyn ni wedi bod yn dysgu am wledydd o amgylch y byd - Awstralia, Portiwgal a Ffrainc. Fel rhan o'n hastudiaethau, fe ddysgon ni am draethau hyfryd Portiwgal ac fe aethon ni i Ynys y Bari i gael y profiad o fod ar lan y môr. Cafon ni ddiwrnod i'r brenin yn neidio yn y tonnau, adeiladu cestyll tywod a bwyta hufen iâ (wrth guddio rhag y gwylanod drwg!)**

*This term, we looked at different countries from around the world - the children chose to learn about Australia, Portugal and France. As part of our Portugal studies, we learnt that they had magnificent beaches. We went to Barry Island to experience what it was like to be at the beach. We had a wonderful day jumping in the waves, building sandcastles and eating yummy ice cream (all while hiding from the cheeky seagulls!)*

# Newyddion Dosbarth / Class News




## Dosbarth Gelert
*Blwyddyn 3/4 / Year 3/4*

**Y tymor hwn rydym wedi canolbwyntio ar y dyniaethau. Rydym wedi dysgu am yr Eidal, y Rhufeiniaid a Pompeii. Yn ystod y cyfnod hwn fe ddarllenon ni'r llyfr 'Escape from Pompeii', yna fe wnaethon ni uniaethu â'r cymeriadau trwy ysgrifennu dyddiadur. Rydyn ni hefyd wedi dysgu am y grefydd Iddewig. Roedd gan y plant ddiddordeb mawr yn y Synagog a phenderfynon ni ysgrifennu e-bost at y Rabi. O ganlyniad, aethon ni ar drip ysgol i'r Synagog. Mwynhaodd y plant yn fawr ac roeddent yn chwilfrydig iawn.**

*This term we have focused on the humanities. We have learnt about Italy, the Romans and Pompeii. During this time we read the book 'Escape from Pompeii', we then empathised with the characters by writing a diary entry. We have also learnt about the Jewish religion. The children took a very keen interest in the Synagogue and decided to write an e-mail to the Rabbi. As a result, we went on a school trip to the Synagogue. The children thoroughly enjoyed and were very inquisitive.*



## Dosbarth Bendigeidfran
*Blwyddyn 5/6 / Year 5/6*

**Mae'r hanner tymor diwethaf wedi bod yn hynod o brysur. Rydyn ni wedi cael hwyl yn dysgu am wahanol ddiwylliannau; rydym wedi canolbwyntio'n arbennig ar y ffydd Hindŵaidd. Un uchafbwynt oedd gwneud y dysgu hwnnw'n real drwy ymweld â'r Mandir yng Nghaerdydd ac yna stopio am hufen ia ar y ffordd adref! Rydyn ni i gyd wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer clyweliadau Matilda ac rydyn ni nawr yn brysur yn ymarfer y sgript ar gyfer ein cynhyrchiad yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni – rydyn ni mor gyffrous!**

*The last half term has been extremely busy. We've had fun learning about different cultures; we've particularly focused on the Hindu faith. One highlight was making that learning real by visiting the Mandir in Cardiff and then stopping off for an ice cream on the way home! We've all been busy preparing for Matilda auditions and we're now busy rehearsing the script for our production at Ysgol Gyfun Cwm Rhymni - we can't wait!*

# Newyddion Dosbarth / Class News



**Canolfan Gwenllian**
*Amrywiol / Various*

**Diwedd hanner tymor prysyr arall ac rydyn ni wedi bod yn dysgu am yr ardal leol, gwledydd Ewrop ac anifeiliaid. Rydyn ni wedi cael llawer o hwyl yn bwcio ein gwyliau delfrydol ac wedi mwynhau diwrnod heulog hyfryd ar y traeth yn Ynys y Barri. Nawr mae hi'n amser i ffarwelio â charfan arall o ddisgyblion! Pob hwyl a phob lwc hanner tymor nesaf yn parhau i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg.**

*An end to another busy half term and we have been learning about the local area, European countries and animals. We have had lots of fun booking our ideal holiday and also enjoyed a lovely sunny day on the beach at Barry Island. Now it's time to bid farewell to another cohort of students and we wish them well and all the best for the next half term, as they continue to develop their Welsh language skills.*

# Dyddiadau Pwysig / Important Dates

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---|---|
| 10/6/24 | Wythnos Profion Cenedlaethol<br>*National Tests Week* |
| 12/6/24 | Criced yr Urdd (Blwyddyn 3/4)<br>*Urdd Cricket (Year 3/4)* |
| 21-23/6/24 | Taith Bae Caerdydd (Blwyddyn 6)<br>*Cardiff Bay Trip (Year 6)* |
| 27/6/24 | Mabolgampau (Babanod - yb / Iau - yp)<br>*Sports Day (Infants - am / Juniors - pm)* |
| 1/7/24 | Sioe Gerdd 'Matilda'<br>*'Matilda' Musical* |
| 3/7/24 | Ymweliad Plant Meithrin Newydd<br>*New Nursery Intake Visit* |
| 9/7/24 | Taith Haf Babanod - Fferm Antur Colliers<br>*Infants Summer Trip - Colliers Adventure Farm* |
| 10/7/24 | Diwrnod Pontio Blwyddyn 6 (Ysgol Gyfun Cwm Rhymni)<br>*Year 6 Transition Day (Ysgol Gyfun Cwm Rhymni)* |
| 10/7/24 | Diwrnod Pontio Dosbarthiadau Newydd<br>*New Class Transition Day* |
| 16/7/24 | Taith Haf yr Adran Iau (West Midlands Safari Park)<br>*Juniors Summer Trip (West Midlands Safari Park)* |
| 18/7/24 +<br>19/7/24 | Diwrnodau HMS (Dim Ysgol i Ddisgyblion)<br>*INSET Days (No School for Pupils)* |